

# Edrych ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



**Adroddiad 2018**

## Cyflwyniad

Mae Cyngorau Cymuned a Thref yn bwysig.

### Mae gennym ni dros 730 yng Nghymru.

Maen nhw'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol ac yn gwneud pethau gwahanol.

Maen nhw'n cynrychioli cymunedau o lai na

**200** o bobl



Roedd Llywodraeth Cymru eisiau gwybod mwy am beth y mae Cyngorau Cymuned a Thref yn ei wneud a sut maen nhw'n gweithio.

### Panel Adolygu Annibynnol

Yn 2017, fe wnaethon nhw sefydlu panel gyda:

- phobl o wahanol bleidiau gwleidyddol
- pobl sy'n gweithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref
- pobl sy'n gweithio gyda chymunedau.

## Yr Adolygiad

### Casglu Tystiolaeth

Fe edrychodd y panel ar sut roedd Cyngorau Cymuned a Thref yn gweithio yng ngweddill y DU a gwledydd eraill: Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd, UDA a Denmarc.



Fe wnaethom ni hefyd ofyn i bob Cyngor Cymuned a Thref anfon tystiolaeth o'u gwaith atom ni.

### Cynnwys pobl



Fe gymerodd cannoedd o bobl ran.

Fe wnaethom ni siarad â:

- Chynghorau Cymuned a Thref
- pobl a oedd yn gweithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref
- Awdurdodau Lleol, sefydliadau a grwpiau cymunedol
- pobl yn y gymuned
- plant a phobl ifanc.

Fe wnaethom ni hefyd:



- gynnal pedwar arolwg ar-lein i grwpiau
- gan gynnwys arolwg cyhoeddus ar-lein ac Arolwg Ieuenctid
- cynnal digwyddiadau ar gyfer Chynghorwyr a phobl sy'n ymwneud â chynghorau
- cynnal digwyddiadau ar gyfer staff Awdurdodau Lleol
- cynnal digwyddiadau cymunedol
- cael Cyngorau Cymuned a Thref i gynnal digwyddiadau hefyd.

Fe wnaethom ni ddefnyddio'r

wybodaeth hon i nodi'r pedwar maes clir y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arny'n nhw.

### Mae'r adroddiad hwn yn

dweud wrthoch chi am rai o'r pethau y gwnaethom ni eu darganfod. Mae hefyd yn dweud wrthoch chi beth rydyn ni eisiau gweld yn digwydd yn y dyfodol.



# 1 Beth ydyn nhw

Fe ddywedodd pobl eu barn ar Gyngorau Cymuned a Thref wrthym ni.

## Fe wnaethom ni ofyn a oes angen Cyngorau Cymuned a Thref.

Fe ddywedodd pobl wrthym ni fod Cyngorau Cymuned a Thref yn gweithio'n dda ar ran eu cymunedau.

Maen nhw'n bwysig oherwydd eu bod nhw:

- yn helpu cymunedau i gael dweud eu dweud
- yn gweithredu ar lefel leol
- yn atebol i'r gymuned
- yn codi adnoddau ar gyfer y gymuned
- yn arwain newid
- yn cynrychioli eu cymunedau
- yn gwneud yn siŵr bod penderfyniadau o fudd i bawb.

Ond fe ddywedodd eraill:

- eu bod nhw'n hen ffasiwn
- bod angen iddyn nhw wella.

## Rydyn ni eisiau:

- cadw Cyngorau Cymuned a Thref.

## Maen nhw'n helpu cymunedau i ddweud eu dweud.

Mae gan y mwyafrif o ardaloedd Gyngor Cymuned a Thref.

Does gan **30%** o boblogaeth Cymru dim un. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw fod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â'u hardal.

## Rydyn ni eisiau:

- i bob ardal fod â Chyngor Cymuned neu Dref.

## Maen nhw'n deall anghenion lleol.

Mae cymunedau'n newid trwy'r amser. Mae rhai yn tyfu – rhai yn mynd yn llai. Mae angen i Gyngorau Cymuned a Thref allu newid i gefnogi eu hardal leol.

## Rydyn ni eisiau:

- ymchwiliad i faint y cymunedau fel bod Cyngorau Cymuned a Thref yn gallu newid os oes angen iddyn nhw.

## Maen nhw'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

Mae yna lawer o wahaniaethau rhwng Cyngorau Cymuned a Thref ledled Cymru.

Maen nhw i gyd yn gwneud gwahanol bethau mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai o'r ffyrdd hyn yn gweithio'n well na'i gilydd.

## Rydyn ni eisiau:

- i bob Cyngor Cymuned a Thref wneud yr un pethau ond cael dewis sut maen nhw'n eu gwneud nhw.



## 2 Beth y maen nhw'n ei wneud

Mae yna lawer o bobl sydd ddim yn gwybod beth y mae eu Cyngor Cymuned neu Dref yn ei wneud.

### Mae Cyngorau Cymuned neu Dref yn edrych ar ôl llawer o wasanaethau yn seiliedig ar leoedd.

Roedd llawer o bobl yn gwybod eu bod nhw'n gofalu am barciau, strydoedd a sbwriel. Ond maen nhw hefyd yn gofalu am:

- safleoedd claddu
- llochesi bysiau
- neuaddau pentref ac adeiladau cymunedol
- toiledau
- torri glaswellt
- llwybrau troed a phalmentydd lleol
- marchnadoedd
- meysydd chwarae a mannau agored
- rhandiroedd.

### Rydyn ni eisiau:

- i bob Cyngor Cymuned a Thref fod yn gyfrifol am bob gwasanaeth sy'n seiliedig ar leoedd yn eu hardal.
- i Gyngorau Cymuned a Thref fod yn glir ynglŷn â beth y maen nhw'n ei wneud.

### Maen nhw'n gwella cymunedau.

Mae Cyngorau Cymuned a Thref yn gallu helpu pobl i fod yn ddiogel, yn iach ac i fwynhau bywyd yn eu hardal.

### Rydyn ni eisiau:

- i Gyngorau Cymuned a Thref allu gwneud beth y mae ar eu cymuned angen iddyn nhw ei wneud.

### Mae angen y grym arnyn nhw i wneud pethau.

Mae'n rhaid i Gyngorau Cymuned a Thref allu cymryd camau gweithredu. Fe fydd yna fframwaith cyfreithiol newydd i wneud yn siŵr bod hyn yn gallu digwydd.

### Rydyn ni eisiau:

- i Gyngorau Cymuned a Thref wneud defnydd o'r fframwaith newydd hwn dros y 3 blynedd nesaf.

### Gwrando ar Gymunedau.

Mae rhai Cyngorau Cymuned a Thref yn cynnwys ac yn gwrando ar eu cymunedau'n dda iawn. Maen nhw'n cynnal digwyddiadau, yn anfon cylchlythyrau ac yn rhoi gwybodaeth ar-lein.

Dydy eraill ddim yn gwneud hyn.

### Rydyn ni eisiau:

- bod â rheolau ynglŷn â sut i gynnwys pobl.

### Maen nhw'n helpu cymunedau lleol i ddweud eu dweud.

Cyngorau Cymuned a Thref sydd agosaf at eu cymunedau. Maen nhw'n gwybod beth sy'n digwydd a'r adnoddau sydd ganddyn nhw.

Fe ddylen nhw chwarae mwy o ran mewn cynlluniau lleol gan gynnwys cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant yn yr ardal.

### Rydyn ni eisiau:

- i Gyngorau Cymuned a Thref chwarae rhan mewn cynllunio ar gyfer y dyfodol a chysylltu mwy â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hardal.



### 3 Sut maen nhw'n ei wneud

Mae gan lawer o Gyngorau Cymuned a Thref Gyngorwyr a staff sy'n gweithio i gefnogi eu cymunedau. Ond fe ddywedon nhw wrthym ni bod angen mwy o gymorth, hyfforddiant a help proffesiynol arnyn nhw weithiau.

#### Maen nhw'n gwybod am anghenion eu cymunedau.

Mae Cyngorau Cymuned a Thref yn gwybod bod angen iddyn nhw ddewis y systemau sy'n gweithio orau i'w hardal. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag eraill a rhannu adnoddau.

#### Rydyn ni eisiau:

- i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i fwy o ffyrdd i'w helpu nhw i weithio gyda'i gilydd.

#### Mae angen iddyn nhw gael cymorth a chyngor.

Does yna ddim digon o gymorth pan mae ei angen arnyn nhw.

#### Rydyn ni eisiau:

- i gyngor a chymorth o ansawdd da fod ar gael ledled Cymru.

#### Mae'n rhaid iddyn nhw fod â'r arian a'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw.

Mae'n rhaid i Gyngorau Cymuned a Thref allu cefnogi eu cymunedau.

Mae **75%** o'u hincwm yn dod o'r Dreth Gyngor.

Mae angen iddyn nhw edrych ar ffyrdd i gael mwy o gyllid.

#### Rydyn ni eisiau:

- i Gyngorau Cymuned a Thref allu cael cyllid o amrywiaeth o leoedd.
- i Lywodraeth Cymru edrych ar sut y mae gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd yn cael eu hariannu.

#### Mae angen iddyn nhw fod â staff cymwysedig a medrus.

Mae yna lawer o bobl wahanol yn gweithio i helpu cyngorau. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio fel Clercod.

Mae clercod yn cynghori eu Cyngor Cymuned a Thref ac yn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn y gyfraith. Mae angen iddyn nhw fod â'r cymwysterau a'r sgiliau i wneud eu swydd yn dda.

#### Rydyn ni eisiau:

- i Lywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd y gall clercod weithio gyda'i gilydd ac ennill sgiliau.
- i bob clerc fod â chymhwyster proffesiynol, neu fod yn gweithio tuag at un.





**Mae ganddyn nhw Gynghorwyr sydd wedi'u hethol.**

Rhywun y mae pobl yn eu cymuned wedi'i ethol ydy Cyngorydd.

Mae'n rhaid iddyn nhw wasanaethu eu cymuned. Ond dydy cynghorwyr ddim bob amser yn deall eu swydd neu eu cyfrifoldebau.

Hefyd, mae rhai Cynghorwyr yn cael eu hethol i fwy nag un Cyngor Cymuned neu Dref. Mae eraill hefyd yn gweithio fel Cynghorwyr i'r Awdurdod Lleol.

**Rydyn ni eisiau:**

- i bob Cyngorydd orfod dilyn hyfforddiant.
- i Gynghorwyr sefyll ar un cyngor yn unig.

**Mae'n rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau.**

Mae'n bwysig bod Cyngorau Cymuned a Thref yn gallu gwneud penderfyniadau a gweithredu'n gyflym.

**Rydyn ni eisiau:**

- i Gyngorau Cymuned a Thref edrych ar ffyrdd i'w gwneud hi'n gyflymach ac yn haws gwneud penderfyniadau.

**Maen nhw'n defnyddio technoleg.**

Mae'n rhaid i Gyngorau Cymuned a Thref fod â gwefan. Ond mae yna rai sydd yn dal i fod heb un.

Mae rhai Cyngorau Cymuned a Thref yn dda am ddefnyddio technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â'u cymunedau. Ond dydy eraill ddim. Mae angen i hyn newid.

**Rydyn ni eisiau:**

- gwneud i Gyngorau Cymuned a Thref ddefnyddio technoleg yn fwy helaeth.

**Maen nhw'n cydweithio.**

Mae angen i Gyngorau Cymuned a Thref weithio'n dda gydag:

- eu Hawdurdod Lleol
- busnesau
- sefydliadau
- elusennau ac
- eraill yn y gymuned.

**Rydyn ni eisiau:**

- i bob Awdurdod Lleol fod â rhywun wedi'i enwi sy'n gyfrifol yn ei swydd am weithio gyda Chyngorau Cymuned a Thref.



## 4 Bod yn atebol i'r Gymuned

Mae Cyngorwyr Cymuned a Thref yn gwneud llawer o benderfyniadau ac yn defnyddio arian cyhoeddus. Mae llawer o bobl o'r farn bod angen iddyn nhw ddangos beth y maen nhw'n ei wneud ag ef.

### Mae pob Cyngorydd wedi'i ethol.

Mae hyn yn golygu os nad ydy'r cyhoedd yn hoffi beth y maen nhw'n ei wneud y gallan nhw bleidleisio i gael gwared â nhw. Ond mae yna heriau.

Does yna ddim digon o bobl sydd eisiau bod yn Gyngorwyr.

Hefyd, os nad oes yna ddigon o bobl i gael eu hethol yna mae'r cyngor yn gallu gofyn i rywun ymuno â nhw heb etholiad.

### Rydyn ni eisiau:

- i Lywodraeth Cymru gynnal ymgyrch genedlaethol i gael mwy o bobl i ddod yn gyngorwyr.
- i Gyngorwyr sydd heb eu hethol aros am un tymor ar y mwyaf.
- cael etholiadau, hyd yn oed os nad oes cystadleuaeth.

### Mae angen iddyn nhw gynrychioli pawb.

Mae yna bobl o wahanol gefndiroedd, diwylliannau, galluoedd ac oeddrannau mewn cymunedau. Mae'n bwysig bod cyngorau'n cynrychioli pawb.

Yn 2017:

- Roedd **55%** o gyngorwyr dros 60 oed.
- Dim ond **1.2%** o gyngorwyr cymuned oedd ddim yn wyn
- Roedd **65%** yn ddynion.

Dydy hyn ddim yn adlewyrchiad ohonom ni.

### Rydyn ni eisiau:

- i fwy o bobl ddod yn Gyngorwyr.
- gostwng yr oedran y gall rhywun ddod yn Gyngorydd, os ydy oed pleidleisio'n cael ei ostwng.

### Mae'n rhaid iddyn nhw roi gwybod i bobl beth y maen nhw'n ei wneud.

Mae angen i bob Cyngor Cymuned a Thref roi gwybod i bobl beth y maen nhw'n ei wneud. Mae angen i gymunedau allu cysylltu mwy a bod yn rhan o benderfyniadau.

### Rydyn ni eisiau:

- i bob Cyngor Cymuned a Thref adrodd bob blwyddyn ar beth y maen nhw wedi'i wneud.
- manylu ar eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod.
- cynnal o leiaf un cyfarfod cyhoeddus.
- defnyddio mwy ar y cyfryngau cymdeithasol.



### Fe ddylen nhw fod yn agored ynglŷn â'u gwariant.

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i Gyngorau Cymuned a Thref fanylu ar eu cyfrifon, sy'n cael eu gwirio, ac mae'n rhaid i bobl allu eu gweld. Mae'n bwysig eu bod nhw'n rheoli'u harian yn dda.

#### Rydyn ni eisiau:

- mwy o gymorth i'r Gyngorau Cymuned a Thref llai i wneud hyn.

### Weithiau mae pethau'n mynd o chwith.

Mae'n bwysig bod rhywun yn gallu camu i mewn a helpu os ydyn nhw.

#### Rydyn ni eisiau:

- i Gyngorau Cymuned a Thref gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i helpu os ydy pethau'n mynd o chwith o ddifri.
- i Lywodraeth Cymru gamu i mewn os ydy pethau'n mynd o chwith.

### Dylai Cyngorwyr ymddwyn yn dda.

Does gan y mwyafrif o gyngorau ddim problem â'u cyngorwyr. Ond mae nifer bach yn cael problemau. Pan geir cwyn, yna mae'r mwyafrif yn cael eu trin yn y ffordd iawn, ond weithiau mae hyn yn cymryd amser hir.

#### Rydyn ni eisiau:

- i ymddygiad pobl gael ei wirio cyn eu bod nhw'n gallu dod yn gyngorwyr.

## Diolch am ddarllen hwn

Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma:

[gov.wales/topics/localgovernment/communitytowncouncils](http://gov.wales/topics/localgovernment/communitytowncouncils)

